

## Cylchlythyr Gwanwyn

Mai 2020

### Annwyl ,

Wrth i COVID-19 barhau i ddominyddu'r penawdau, mae'r rhifyn hwn yn crynhoi canllawiau a chefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael i landlordiaid a thenantiaid yn ogystal â gweithgareddau busnes fel arfer.

Ymhlieth yr uchafbwyntiau mae:

- Rhwymedigaethau iechyd a diogelwch yn ystod COVID-19
- Gofalu am eich iechyd a'ch lles meddyliol
- Opsiynau cymorth i denantiaid
- Deddf newydd nawr yn weithredol - Terfynau Rhagnodedig ar gyfer Taliadau Diffygddaliad
- Fideos esboniadol Rhentu Doeth Cymru

### COVID-19: Rhwymedigaethau iechyd a diogelwch

Ydych chi'n poeni am sut i gyflawni'ch rhwymedigaethau cyfreithiol fel landlord yn ystod y cyfnod hwn?

Rydym yn derbyn ceisiadau dyddiol am gyngor. Mewn ymateb rydym wedi datblygu matrics **COVID-19: Rheoli eich rhwymedigaethau iechyd a diogelwch**, sy'n gydgrynhoin i'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a'r Weithrediaeth lechyd a Diogelwch.


Yma fe welwch y wybodaeth ddiweddaraf am:

- Archwiliadau diogelwch nwy
- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni
- Cynnal a chadw, atgyweirio ac ymweld
- Dod â thenantiaeth i ben

[Gweld y matrics >](#)

### CYMORTH I DENANTIAID

#### Cefnogaeth a chymorth ariannol i denantiaid



Mae'r pandemig yn effeithio ar bawb, rhai yn fwy nag eraill, a gallai effeithio'n arbennig ar denantiaid sy'n agored i niwed. Mae adroddiadau'n nodi bod llawer yn cael trafferth talu eu rhent, biliau a thalu am hanfodion eraill.

Mewn ymateb mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllaw cyfeirio sy'n nodi'r cymorth sydd ar gael i denantiaid sy'n cael trafferthion drwy amrywiaeth o sefydliadau cymorth.

Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd, Lwfans Ceisio Gwaith Newydd, y Dreth Gyngor a chymorth digartrefedd, cymorth gyda biliau'r cartref megis Dŵr, Nwy, Trydan, Band Eang, yn ogystal â banciau bwyd a llawer mwy.

Gallwch helpu eich tenantiaid i ffynnu yn ystod yr argywng hwn; cyfeiriwrch [yma](#).

[Cymorth i denantiaid >](#)

### CYMORTH I LANDLORDIAID

#### Eich iechyd meddwl a lles



Gall cyfnod ansicr gael effaith sylweddol ar iechyd a lles. Efallai eich bod yn teimlo'n bryderus neu rydych yn poeni am effaith y Coronafeirws arnoch chi a'r bobl o'ch cwmpas. Mae cymryd camau i ofalu am eich lles meddyliol yn fan cychwyn pwysig, ac mae help ar gael i chi, os oes angen.

Mae [Callhelpline.org.uk](#) yn wefan ddefnyddiol sy'n rhestru'r holl wasanaethau cymorth iechyd meddwl yng Nghymru. Mae'n cynnwys cyngor ar gyfer cadw'ch meddwl yn brysur, ac yn rhoi rhestr lawn o'r asiantaethau cymorth sydd ar gael os oes arnoch chi angen siarad.

[callhelpline.org.uk >](#)

### DOLENNI DDEFNYDDIOL

#### Cyngor tai

[Rhentu Doeth Cymru - tudalen COVID-19](#)

[Llywodraeth Cymru - Canllawiau i landlordiaid ac asiantau](#)

[Llywodraeth Cymru - Canllawiau i denantiaid](#)

[Llywodraeth Cymru - Cymorth i tenantiaid](#)

[Gas Safe Register - Cyngor i landlordiaid](#)

[NRLA - Webinar Coronafeirws](#)

#### Cyngor iechyd

[Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gwybodaeth diweddaraf COVID-19](#)

[Llywodraeth Cymru - Aros gartref a chadw draw oddi wrth bobl eraill](#)

#### Ymgynghoriad

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar nifer o meysydd, gan gynnwys tai. I ddarganfod sut i gymryd rhan, cliciwch [yma](#).

### DEDDFWRIAETH

#### Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Terfynau Rhagnodedig ar gyfer Taliadau Diffygddaliad) (Cymru) 2020



Llywodraeth Cymru

Welsh Government

Mae taliadau diffygddaliad yn daliadau a ganiateir o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 28 Ebrill 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu terfynau (terfynau rhagnodedig) ar fathau penodol o daliadau sy'n ofynnol yn achos diffygddaliad gan ddeiliad contract. Mae'n yn cynnwys terfynau ar taliadau rent hwyr, chost newid, ychwanegu neu dynnu clo, a'r terfyn rhagnodedig ar newid allwedd/dyfais ddiogelwch arall.

Os eir heibio i'r terfynau, caiff yr hyn sydd uwchlaw hynny ei ystyried fel taliad wedi ei wahardd.

[Rheoliadau >](#)

### ADNODDAU

#### Fideos esboniadol Rhentu Doeth Cymru

Rydym wedi datblygu cyfres o fideos byr wedi'u hanimeiddio i helpu i esbonio'r broses a'r gofynion o ran cofrestru a thrwyddedu landlordiaid yng Nghymru.

Dewiswch bwnc a chliciwch ar un o'r cryno-luniau isod i'w chwarae.

[Amodau trwyddedu >](#)

[Canlyniadau peidio â chydymffurfio >](#)

[Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru](#)

[Rhwymedigaethau landlordiaid >](#)

[Sianel YouTube Rhentu Doeth Cymru >](#)

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales

Copyright © 2015-2020

[www.rhentudoeth.llyw.cymru](#)

[www.rentsma...wales](#)

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales  
Blwch PO / PO Box 1106

Caerdydd / Cardiff

CF11 1UA

Rhentu  
Doeth  
Cymru  
Rent  
Smart  
Wales



Llywodraeth Cymru

Welsh Government